# Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:
**Presiding Officer's office, 4th floor - Tŷ Hywel**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Dyddiad:
**Dydd Mawrth, 4 Tachwedd 2014**

Amser:
**08.30**


I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:
**Aled Elwyn Jones (Clerk)**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8009
Business.Committee@wales.gov.uk


## Agenda
Preifat

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon **BC(4)29-14(p1)**

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth am y newidiadau i Fusnes y Llywodraeth ddydd Mawrth.

Bydd y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid cynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer ddydd Mercher.

**3.2** Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf **BC(4)29-14(p2)**

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**3.3** Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf **BC(4)29-14(p3)**

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 26 Tachwedd 2014 -**

- Dadl ar adroddiad dilynol y Pwyllgor Menter a Busnes i Sgiliau Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer - Nick Ramsay (Sir Fynwy) (30 munud)
- Dadl Fer - Darren Millar (Gorllewin Clwyd) (30 munud)

# 4 Deddfwriaeth

**4.1** Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Hawliau Defnyddwyr **BC(4)29-14(p4)**

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Hawliau Defnyddwyr.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol at y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol er mwyn iddo graffu arno. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai'r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn dydd Iau 20 Tachwedd 2014, er mwyn gallu trafod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 25 Tachwedd 2014.

## 5 Pwyllgorau

**5.1** Cynnig i Sefydlu Pwyllgor Cynulliad **BC(4)29-14(p5)**

**5.2** Cynnig i sefydlu Pwyllgor Cynulliad: Penderfyniadau'r Pwyllgor Busnes **BC(4)29-14(p6)**

Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur gan y Llywodraeth ynghylch cynnig i sefydlu Pwyllgor Cynulliad i drafod Cael Gwared ar yr Amddiffyniad Cosb Resymol mewn achosion o Gosbi Plant yn Gorfforol, ynghyd â phapur gan yr Ysgrifenyddiaeth yn nodi materion cysylltiedig i'r Rheolwyr Busnes eu hystyried.

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drafod y cynnig, gan gynnwys yr aelodaeth a materion eraill sy'n ymwneud â'r Pwyllgor, gyda'u grwpiau ac adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Busnes ar 11 Tachwedd 2014.

## 6 Y Rheolau Sefydlog

**6.1** Cydsyniad o ran Newidiadau i Swyddogaethau'r Cynulliad **BC(4)29-14(p7)**

Trafododd y Rheolwyr Busnes bapur ar y cynigion gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol i ddiwygio'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â swyddogaethau'r Cynulliad. Cytunodd y Pwyllgor i'r Ysgrifenyddiaeth lunio cynigion ar gyfer diwygio Rheol Sefydlog 30 ac y byddai'n dychwelyd at y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

**Unrhyw Fater Arall**

Nododd y Rheolwyr Busnes y byddai'r Llywodraeth yn gosod Gorchymyn Adran 109 yr wythnos hon, cyn dod â phapur ffurfiol gerbron y Pwyllgor yr wythnos nesaf.

Dywedodd Gweinidog Busnes y Llywodraeth wrth y Pwyllgor y byddai'r Llywodraeth yn gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth yr wythnos hon, ac y byddai papur yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod yr wythnos nesaf.